

Y rhai yr ymgynghorwyd â nhw

Gofynnwch Am:
Please Ask For:
Rhif Est:
Telephone N°:
Ffacs:
Fax:
E-Bost:
E-Mail:
Cylichlythyr:
Circular:

Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif

01443 744062

CynllunioYsgolion@rhondda-cynon-taf.gov.uk

Fy nghyf:
My Ref:

Eich Cyf:
Your Ref:

Dyddiad: 19 Gorffennaf 2019
Date:

Annwyl Ymgynghoreion,

**CYNNIG: AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD, YSGOLION UWCHRADD
A DARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH YN ARDAL PONTYPRIDD**

Penderfynodd Cabinet y Cyngor yn ei gyfarfod ar 18 Gorffennaf 2019, gymeradwyo'r cynigion uchod i'w gweithredu ym mis Medi 2022. Mae'r penderfyniad yma'n amodol ar y drefn "Galw i Mewn". Mae'r cynnig i ddi-ddymu darpariaeth y chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun y Cardinal Newman yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn parhau i fod dan sylw Gweinidogion Cymru ac mae'r Cyngor yn disgwyl penderfyniad ar y cynnig penodol yma.

Cafodd Adroddiad Gwrthwynebiadau eu paratoi mewn perthynas â'r cynigion. Cewch chi ddarllen hwnnw ar wefan y Cyngor, trwy ddilyn y ddolen isod. Mae modd cael copïau papur ar gais.

<https://www.rctcbc.gov.uk/CY/GetInvolved/Consultations/SchoolConsultations/Schoolconsultations.aspx>

Cafodd y rhesymau dros y cynigion, a'r rhesymeg y tu ôl iddyn nhw, ynghyd â rhesymau dros y penderfyniad hwn i'w gweithredu nhw eu nodi'n llawn a'u hesbonio yn y ddogfen ymgynghori a gafodd ei dosbarthu'n eang ym mis Hydref, y llynedd, ac mae'r ddogfen ymgynghori yn parhau i fod ar gael ar wefan y Cyngor. Yn ogystal â hynny, rhoddodd y Cabinet ystyriaeth lawn i'r holl sylwadau a ddaeth i law yn dilyn y broses ymgynghori a ddaeth i ben ym mis Ionawr eleni, ynghyd â'r gwrthwynebiadau a ddaeth i law yn dilyn cyhoeddi'r hysbysiad statudol, ar y cyd â'r sawl dogfen asesu effaith a gafodd ei pharatoi i hysbysu'r broses ymgynghori. Mae crynodeb o'r rhesymau dros y penderfyniad i weithredu'r cynigion isod:

• **Ansawdd a safonau addysg**

Mae buddiannau'r plant a phobl ifainc sy'n mynychu ein hysgolion o'r pwys mwyaf. Trwy sefydlu darpariaethau chweched dosbarth mwy ac ysgolion 3-16 oed, mae'r Cyngor o'r farn

Tŷ Trevithick
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

Gaynor Davies
Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services

Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages

Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.



MAE EICH DATA O BWYS www.rctcbc.gov.uk/diogeludata
YOUR DATA MATTERS www.rctcbc.gov.uk/dataprotection



y bydd yn:

- Gwella deilliannau addysgol;
- Gwella'r ddarpariaeth addysgol, a
- Gwella arweinyddiaeth a rheoli.

- **Yr angen i resymoli lleoedd ysgol a gwella hygyrchedd**

Bydd y cynigion hyn yn galluogi buddsoddiad o £37.4miliwn ar gyfer adeiladu ysgolion newydd a/neu adnewyddu ac aildrefnu adeiladau presennol i ofalu bod gan ddisgyblion amgylchedd addysg o safon, hyfyw, a chynaliadwy ar gyfer yr 21^{ain} Ganrif. Bydd yn sicrhau bod gan yr ysgolion ddigon o leoedd, sy'n cynnwys diddymu'r lleoedd dros ben aneffeithlon a chostus sy'n bodoli ar hyn o bryd mewn rhai darpariaethau, yn ogystal â chynyddu nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg yn yr ardal er mwyn cefnogi Targed Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg Llywodraeth Cymru. Bydd yr ysgolion i gyd yn hygyrch ac yn bodloni'r holl ddeddfau statudol yn llawn. Bydd darpariaeth trafndiaeth ar gael yn unol â Pholisi Teithio gan Ddysgwyr y Cyngor, sy'n mynd tu hwnt i oblygiadau statudol Llywodraeth Cymru.

I grynhoi, mae'r darpariaethau chweched dosbarth yn y tair ysgol uwchradd yn parhau i fod yn addysgol ac ariannol anhyfyw.

- mae darpariaeth chweched dosbarth yn cael ei dyblygu'n ddiangen ar draws ysgolion a cholegau;
- mae maint dosbarthiadau'n rhy fach ac mae adnoddau sydd i fod cael eu defnyddio ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 3 a 4 yn cael eu defnyddio i roi cymhorthdal i ddarpariaethau chweched dosbarth sydd ddim yn gynaliadwy mewn lleoliadau;
- mae cyfraddau cadw ôl 16 yn cael effaith niweidiol yn ariannol ac yn addysgol;
- mae cyfanswm diffyg ariannol Ysgol Gyfun y Cardinal Newman Eglwys Gatholig Rhufain, Ysgol Uwchradd y Ddraenen Wen ac Ysgol Uwchradd Pontypridd yn mynd tu hwnt i £1.5miliwn.

Bydd creu ysgolion 3-16 oed newydd yn darparu amgylchoedd dysgu Ysgolion yr 21ain Ganrif a fydd yn:


- darparu adeiladau cwbl hygyrch ac sy'n bodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010,
- diddymu lleoedd dros ben;
- creu darpariaethau sy'n gynaliadwy o safbwynt ariannol;
- gwella'r broses bontio;
- galluogi cysondeb gwell o ran cyfleoedd addysgu a dysgu ym mob Cyfnod Allweddol, a darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu cyfleuster cymunedol gwbl gynhwysol.

Bydd creu Ysgol Gynradd Gymraeg newydd sy'n fwy yn:

- darparu amgylchedd Ysgolion yr 21ain Ganrif sy'n gwbl hygyrch, modern a hyblyg;
- cefnogi Deddf Cydraddoldeb 2010 a chynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol;
- cefnogi targedau uchelgeisiol Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru;
- darparu manau agored i hwyluso gwaith darparu'r cwricwlwm newydd;
- cynyddu nifer y lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yn ardal Pontypridd, yn unol â deddfwriaeth a strategaeth Llywodraeth; a
- darparu cyfleoedd i ddatblygu cyfleusterau cymunedol cynhwysol.

Casgliad y Cabinet wrth iddo ddod i'w benderfyniad terfynol oedd bod y buddion a all gael eu gwireddu mewn perthynas â gwella deilliannau a darpariaeth addysgol, darparu amgylchedd Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif ar gyfer disgyblion yn yr ardal hon, a chreu darpariaethau sy'n ariannol cynaliadwy, yn rhesymau dilys dros weithredu'r cynigion hyn.

Yn gywir



Gaynor Davies
Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant